Pecyn Dogfennau

CYNGOR SIR

DYDD MERCHER, 28 CHWEFROR 2024

PRESENNOL Cynghorydd B.A.L. Roberts (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	J.M. Charles	P. Cooper	D.M. Cundy
G. Davies	H.L. Davies	K. Davies	M. Donoghue
A. Evans	H.A.L. Evans	L.D. Evans	W.T. Evans
T.M. Higgins	J.K. Howell	P.M. Hughes	P. Hughes-Griffiths
J.D. James	M. James	R. James	D. Jones
A. Lenny	M.J.A. Lewis	N. Lewis	A. Leyshon
K. Madge	D. Nicholas	M. Palfreman	B.D.J. Phillips
D. Price	E. Rees	H.B. Shepardson	E. Skinner
R. Sparks	E.G. Thomas	M. Thomas	J. Tremlett
A. Vaughan Owen	F. Walters		

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

L.R. Bowen	K.V. Broom	M.D. Cranham	S.A. Curry
A. Davies	C.A. Davies	W.R.A. Davies	T.A.J. Davies
B. Davies	L. Davies	Ll.M. Davies	S.L. Davies
T. Davies	N. Evans	R.E. Evans	S. Godfrey-Coles
J.P. Hart	G.H. John	A.C. Jones	G.R. Jones
A.G. Morgan	D. Owen	S.L. Rees	E.M.J.G. Schiavone
D. Thomas	P.T. Warlow	D.E. Williams	J. Williams

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

W. Walters, Prif Weithredwr;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol;
C. Higginson, Rheolwr Cyfryngau;
A. Eynon, Prif Gyfieithydd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):

A. Edwards, Rheolwr y Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil;
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu;
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau;
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau;
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau.

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 10:00yb - 1:10yp

(Noder:

- Am 12:50pm tynnwyd sylw'r Cyngor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y cyfarfod – ac, oherwydd y byddai'r cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr am 1:10pm, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn ystyried y materion a oedd yn weddill ar yr agenda.
- Cyn ystyried eitem 8.4 ar yr Agenda, newidiodd y Cadeirydd drefn y materion i ganiatáu i Gwestiwn gan y Cyhoedd - Eitem 10.2 ar yr agenda i fynd yn ei flaen, ac yna gweddill y cwestiynau cyhoeddus 10.3 a 10.1, gan ddychwelyd i Eitem 8.4 ar yr agenda ac yna gweddill yr eitemau fel y nodir ar yr agenda. Er hwylustod, bydd y cofnodion hyn yn dilyn yr agenda fel y'i cyhoeddwyd.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B. W. Jones, D. C. Evans, A. D. Harries, H. Jones, C. Davies, J. Seaward a G.B. Thomas.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
A Vaughan-Owen	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Ei wraig yn bennaeth ar ysgol gynradd
Ll.M. Davies	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Ei gŵr yn dysgu fel pennaeth cerddoriaeth
N. Evans	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Ei merch yn gweithio i'r gwasanaeth llyfrgelloedd
R. Evans	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Ei merch yn gweithio i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd
M.D. Cranham	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Ei fab yn gweithio yn sector addysg yr Awdurdod
G. Morgan	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Tenant yn Llynnoedd Delta
T. Higgins	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Ei nith yn gweithio yn y gwasanaeth llyfrgelloedd
J. P. Hart	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Aelodau o'r teulu yn gweithio yn adran Addysg yr Awdurdod
F. Walters	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Aelodau o'r teulu'n athrawon
D. Nicholas	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Ei ferch yn gweithio yn yr Adran Gynllunio
L.R. Bowen	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Ei wraig yn gweithio yn yr uned gyfieithu yn yr Awdurdod
C.A. Jones	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Ei ferch-yng-nghyfraith yn gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol
D. Cundy	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Perthnasau'n gweithio i'r Cyngor
E. Skinner	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Nith yn gweithio i'r Awdurdod

R. Sparks	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Mae ganddo fusnes yn y diwydiant hamdden a chaniatawyd gollyngiad iddo siarad ond nid pleidleisio
L. Roberts	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Ei merch yn gweithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn yr Awdurdod
M. Palfreman	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Mae ganddo fusnes ymgynghoriaeth gofal cymdeithasol – caniatawyd gollyngiad iddo siarad ond nid pleidleisio
B. Davies	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Mae ei wraig yn gweithio i'r gwasanaethau Gofal Cymdeithasol
T.A.J. Davies	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Ei chwaer-yng-nghyfraith yn gweithio i'r Awdurdod
P.M. Hughes	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Ei ferch yn gweithio i'r Awdurdod
A. Davies	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Ei wraig yn athrawes yn yr Awdurdod
J. Lewis	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Mae ei nith yn gweithio yn yr Adran Addysg
R. James	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Mae ei bartner yn gweithio yng Ngwasanaethau Llyfrgell yr Awdurdod
K. Madge	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Ei ferch yn gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol yn yr Awdurdod
E. Rees	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Ei frawd yn gweithio yn yr Awdurdod
S. Godfrey-Coles	8.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 - 2025/26	Ei phartner yw Pennaeth y Gwasanaethau Plant yn yr Awdurdod
J. P. Hart	8.4 - Deddf Trwyddedu 2003 Adolygiad o'r Polisi Trwyddedu ac Asesiadau Effaith Gronnol	Yn ddeiliad trwydded bersonol ac yn rheoli safle trwyddedig.
C. A. Jones	8.4 - Deddf Trwyddedu 2003 Adolygiad o'r Polisi Trwyddedu ac Asesiadau Effaith Gronnol	Yn ddeiliad trwydded bersonol ar gyfer safle trwyddedig
P.M. Hughes	8.4 - Deddf Trwyddedu 2003 Adolygiad o'r Polisi Trwyddedu ac Asesiadau Effaith Gronnol	Yn ddeiliad trwydded bersonol ar gyfer safle trwyddedig
F. Walters	9.1 - Cofnodion y Cabinet, 15 Ionawr 2024	Ei merch yn weithiwr cymdeithasol yn yr Awdurdod
N. Lewis	10.2 - Cwestiwn cyhoeddus gan Dr Anthony Laxton	Gweithio i Ynys Sir Gâr

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

- Cyhoeddodd y Cadeirydd ei bod wedi mynd i Wobrau Chwaraeon Actif Sir Gâr a gynhaliwyd yn Theatr y Ffwrnes, Llanelli ar 22 Chwefror 2024. Estynnwyd diolch i aelodau'r Tîm Actif am eu hymdrechion i wneud y diwrnod yn llwyddiant mawr. Roedd yn braf gwobrwyo cynnydd athletwyr ifanc y Sir. Yn ogystal, cafodd yr arian a godwyd yn ystod y noson ei roi i Elusennau'r Cadeirydd - Hosbis Tŷ Bryngwyn, Canolfan Deulu Sant Paul ac Ymatebwr Cyntaf Llanelli.

- Cyhoeddodd y Cadeirydd fod disgyblion Blwyddyn 6 yn Ysgol Pen Rhos, Llanelli, wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o ganser y coluddyn a sgrinio canser y coluddyn yn eu cymuned fel rhan o waith ar y cyd rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (UHB), Iechyd Cyhoeddus Cymru a Menter Canser Moondance. Ysgol Pen Rhos yw'r ysgol gynradd gyntaf yng Nghymru i groesawu'r prosiect yn ei hystafelloedd dosbarth.

4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau eraill.

5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR Y 24 IONAWR 2024

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2024 yn gofnod cywir.

6. ADOLYGIAD CYMUNEDOL DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) (CYMRU) 2013 ("Y DDEDDF")

Derbyniodd y Cyngor adroddiad, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros y Gweithlu a Threfniadaeth. Atgoffwyd y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror 2023, y cymeradwywyd cychwyn Adolygiad Cymunedol i archwilio'r trefniadau llywodraethu Tref a Chymuned presennol ac i wneud Argymhellion Terfynol ar gyfer unrhyw newid priodol. Daeth yr adolygiad hwn i ben ar 11 Hydref 2023. Bydd yr argymhellion a gymeradwywyd yn dod i rym gyda'r set nesaf o etholiadau'r Cynghorau Tref a Chymuned a fydd yn cael eu cynnal ym mis Mai 2027.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, nodwyd bod anghysonderau o ran ffiniau cymunedol a amlygwyd yn y mapiau perthnasol a atodir yn Atodiad A o'r adroddiad.

Rhoddwyd caniatâd yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 11 Hydref 2023 i gynnal adolygiad dan Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2023. Dechreuodd yr ymgynghoriad chwe wythnos cychwynnol ar 12 Hydref 2023 a daeth i ben ar 22 Tachwedd 2023. Atodwyd ymatebion i'r adroddiad yn Atodiad B.

Gofynnwyd i'r Cyngor fabwysiadu'r Argymhellion Drafft at ddibenion yr Adolygiad Cymunedol a chefnogi'r Argymhellion Drafft sy'n cael eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghori am gyfnod o 6 wythnos. Dywedwyd y byddai'r dyddiadau ar gyfer yr ymgynghoriad yn dechrau ar 29 Chwefror 2024 hyd at 11 Ebrill 2024 ac nid y dyddiadau a nodwyd yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

6.1 Bod y cynigion a nodir yn Atodiad C yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor fel Argymhellion Drafft at ddibenion yr Adolygiad ar gyfer:

a) Cyngor Cymuned Llangyndeyrn a Chyngor Gwledig Llanelli
b) Cyngor Cymuned Llangyndeyrn a Chyngor Cymuned Trimsaran
c) Cyngor Cymuned Llangyndeyrn a Chyngor Cymuned Pontyberem

6.2 Bod yr Argymhellion Drafft yn cael eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghori am gyfnod o 6 wythnos;

6.3 Bod canlyniadau'r ymgynghoriad ynghyd â'r Argymhellion Terfynol arfaethedig yn cael eu hadrodd i'r Cyngor Llawn ar 8 Mai

7. RECRIWTIO I SWYDD PENNAETH Y GYFRAITH, LLYWODRAETHU, A GWASANAETHAU SIFIL (A SWYDDOG MONITRO)

Derbyniodd y Cyngor adroddiad, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros y Gweithlu a Threfniadaeth ar Recriwtio i swydd Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil (a Swyddog Monitro), a oedd yn darparu gwybodaeth fanwl am y swydd, rôl y Swyddog Monitro, y trefniadau Dyletswyddau Uwch dros dro a'r amserlen arfaethedig.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor y byddai'r Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith bresennol, (sy'n cynnwys rôl y Swyddog Monitro) yn gadael y Cyngor ar 1 Mehefin 2024. Felly, byddai angen i'r Cyngor ddynodi Swyddog Monitro Dros Dro i gyflawni'r rôl statudol hon hyd nes y daw'r broses benodi i ben a bod Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil newydd yn y swydd.

Dywedwyd y cafwyd trafodaethau rhwng y Prif Weithredwr, cydweithwyr yn y Tîm Rheoli Corfforaethol ac aelodau'r Cabinet, i ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer y gwasanaeth, gyda'r bwriad o sicrhau bod y swydd bwysig hon yn addas i'r dyfodol, yn ogystal â helpu i gyflawni arbedion i'r Awdurdod.

Gyda golwg ar leihau nifer y swyddi sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, cynigiwyd y byddai'r Gwasanaeth Etholiadol a Chofrestru yn adrodd i Bennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil (a Swyddog Monitro). Byddai manteision hyn yn cynnwys gwneud y mwyaf o synergeddau gwasanaethau yn ogystal â helpu i leihau nifer y swyddi sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, a chreu portffolio mwy cytbwys, teg a haws i'w reoli. Adlewyrchwyd y dyletswyddau diwygiedig hyn yn y proffil swydd diwygiedig a atodwyd i'r adroddiad.

Nododd y Cyngor ei bod yn annhebygol y byddai'r broses o recriwtio i swydd Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil (a'r Swyddog Monitro) wedi'i chwblhau cyn i ddeiliad presennol y swydd adael, felly byddai angen trefniadau dros dro drwy gynnal ymarfer mynegiannau o ddiddordeb mewnol i geisio ceisiadau gan unigolion sydd â chymwysterau cyfreithiol a thystysgrif ymarfer a phrofiad perthnasol.

PENDERFYNWYD:

7.1 cymeradwyo'r Proffil Swydd a'r Fanyleb Person a atodir i'r adroddiad.

7.2 cymeradwyo a gweithredu'r trefniadau dros dro arfaethedig, yn dilyn ymarfer mynegiannau o ddiddordeb i fod yn weithredol hyd nes y bydd Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau newydd yn dechrau yn ei swydd.

7.3 nodi, unwaith y bydd Pwyllgor Penodi 'B' wedi ymgynnull i benodi Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil newydd, bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno eto yn un o gyfarfodydd y Cyngor Sir yn y dyfodol i nodi'r penodiad, a bod y Cyngor Sir yn dynodi'r penodai newydd fel Swyddog Monitro'r Cyngor yn unol ag Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

8. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN Y MATERION CANLYNOL:-

8.1. STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW 2024/25 i 2026/27

(NODER: Roedd y Cynghorwyr A Vaughan Owen, Ll.M. Davies, N. Evans, R. Evans, M.D. Cranham, G. Morgan, T. Higgins, J.P. Hart, F. Walters, D. Nicholas, L.R. Bowen, C.A. Jones, D. Cundy, E. Skinner, R. Sparks, L. Roberts. M. Palfreman, B. Davies, T.A.J. Davies, P.M. Hughes, A. Davies, J. Lewis, R. James, K. Madge, E. Rees a S. wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, ac arhosodd y cynghorwyr hynny yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth ynghylch y mater hwn a'r bleidlais ddilynol).

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror, 2024 (gweler Cofnod 6), wedi ystyried Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 - 2026/27 a'i fod wedi gwneud nifer o argymhellion yn ei chylch, fel y manylwyd arnynt yn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, i'w hystyried gan y Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y gyllideb, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddilysu'r gyllideb, y gwasgfeydd o ran gwariant, setliad terfynol Llywodraeth Cymru, a'r ymatebion o'r ymgynghoriad ynghylch y gyllideb.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau byddai mabwysiadu'r cynigion yn yr adroddiad yn galluogi'r Cyngor i ddarparu cyllideb deg a chytbwys, a oedd yn ymateb i'r sylwadau oedd wedi deillio o'r broses ymgynghori. Fodd bynnag, roedd yn teimlo bod dyletswydd arno i dynnu sylw at risgiau'r strategaeth, yn ogystal â'r ansicrwydd yn y dyfodol ynghylch codiadau cyflog a chwyddiant, y mae'n rhaid ei dderbyn fel rhan arferol o'r broses pennu'r gyllideb.

Nodwyd nifer o risgiau o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch ariannu pensiynau athrawon a diffoddwyr tân, y risg o ran cyflawni buddsoddiadau yn y Gwasanaethau Plant, a'r risg oedd ynghlwm wrth ostyngiadau yn y gyllideb ar draws pob rhan o wasanaethau'r Cyngor.

Yn ogystal, nodwyd bod y gyllideb hon o bosibl yn un o'r rhai anoddaf yn hanes y Cyngor a mynegodd ei bryder ei fod yn gyfnod heriol iawn, pan oedd Awdurdodau Lleol yn y sefyllfa amhosibl o geisio darparu gwasanaethau rheng flaen tra'n parhau i wynebu toriadau gan y llywodraeth ganolog. Roedd dyletswydd ar bob Cynghorydd dros y misoedd nesaf i wneud achos dros bwysigrwydd gwasanaethau cyhoeddus a llywodraeth leol yn gyffredinol, a thros yr angen am ragor o fuddsoddiad oherwydd nid oedd yr hyn sydd gennym ar hyn o bryd yn gynaliadwy.

Pwysleisiwyd, wrth bennu'r gyllideb, bod gwaith yn cael ei wneud i geisio diogelu gwasanaethau rheng flaen gan gadw unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor i isafswm ar yr un pryd, ac er bod 7.5% yn uwch na'r hyn a ddymunir, roedd yn llawer gwell na rhai Awdurdodau Lleol eraill a oedd yn wynebu codiadau oedd mewn ffigurau dwbwl yn y dreth gyngor a bod rhai yn wynebu methdalwriaeth.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i bawb a wnaeth gymryd rhan yn yr ymgynghoriad neu ymateb i'r arolygon. Hefyd, i'r cyd-gynghorwyr am eu hymrwymiad wrth gyfrannu at y seminarau am y gyllideb mewn modd mor gadarnhaol, er gwaethaf yr heriau enfawr sydd i ddod. Cafodd cynigion y gyllideb eu harchwilio'n fanwl hefyd gan y Pwyllgorau Craffu.

Yn gyffredinol, nodwyd bod y rhai a oedd yn rhan o'r broses ymgynghori yn sylweddoli bod angen gwneud penderfyniadau anodd. Yn seiliedig ar y canlyniadau hynny, cytunodd y Cabinet i wneud nifer o addasiadau i gyllideb y flwyddyn nesaf, gyda chyfanswm gwerth o £1.95m. Roedd y rhain mewn ymateb i'r adborth gan y cyhoedd a'r Cynghorwyr a gymerodd ran yn y broses ymgynghori. Roedd y ffigwr hwn yn cynnwys darpariaeth i ohirio nifer o gynigion, gan gynnwys:

- gostyngiad o £1m yng nghyllidebau ysgolion.

- gohirio mwy na £400k o arbedion yng nghyllidebau priffyrdd ac amddiffyn rhag llifogydd, gan gydnabod pryder gan gynghorwyr

- gohirio'r gostyngiadau arfaethedig o £100,000 yr un i wasanaethau cymorth ieuenctid a gwasanaethau cerddoriaeth mewn ysgolion, a thros £200,000 i gyllid ar gyfer cyfleusterau cyhoeddus, hyd nes yr ymgynghorit ynghylch yr opsiwn o drosglwyddo asedau.

Amlygwyd nad oedd y swm ychwanegol bach gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i ymateb i'r ymgynghoriad fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Felly, cynigiwyd defnyddio £1m o gronfa wrth gefn y Grant Cynnal Refeniw i roi amser ychwanegol i ysgolion gyflawni'r newidiadau angenrheidiol yn y ffordd orau bosibl yn ôl amgylchiadau unigol.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, petai'r holl gynigion a amlinellwyd yn yr adroddiad yn cael eu gweithredu, gallai'r Cyngor ddarparu Strategaeth Gyllideb sy'n:-

- ymateb i'r ymgynghoriad;
- sicrhau hyd y gellid fod lefelau a safonau'r gwasanaethau'n cael eu cynnal;
- cydnabod bod pobl Sir Gaerfyrddin yn ei chael hi'n anodd yn yr hinsawdd bresennol ac sydd felly'n sicrhau bod gwasanaethau craidd yn cael eu diogelu; ac
- yn paratoi'r Awdurdod hwn, i'r graddau mwyaf posibl, ar gyfer unrhyw ansicrwydd a allai ddigwydd yn y dyfodol.

Cyfeiriwyd at ddifrifoldeb y sefyllfa yr oedd yr Awdurdod yn ei hwynebu ac at y ffaith bod y Cyngor a'r swyddogion yn ceisio gwneud y gorau dros drigolion Sir Gaerfyrddin yn ystod cyfnod heriol iawn.

Diolchodd Aelodau i'r swyddogion a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau am eu gwaith ar y gyllideb dros y misoedd diwethaf.

Gwnaed nifer o ddatganiadau mewn ymateb i gynigion y strategaeth cyllideb refeniw a chydnabuwyd yr heriau a'r anawsterau o ran pennu cyllideb eleni, gan gydbwyso hynny â'r hinsawdd ariannol bresennol gan gynnal gwasanaethau o safon i drigolion ac ymwelwyr Sir Gaerfyrddin.

PENDERFYNWYD:

8.1.1 cymeradwyo'r Strategaeth Gyllideb ar gyfer 2024/25, sy'n cynnwys y newidiadau ym mharagraff 4.1.5;

8.1.2 cymeradwyo Treth Gyngor Band D o £1,602.80 am 2024/25 (cynnydd o 7.5%);

8.1.3 cymeradwyo dileu cynigion arbedion penodol fel y nodir ym mharagraff 3.2.7;

8.1.4 cymeradwyo'r defnydd o £3m o gronfa wrth gefn y Grant Cynnal Refeniw, sef £2m i gefnogi costau dros dro lleoliadau preswyl a gomisiynir i blant, ac £1m i gefnogi'r gyllideb ysgolion dirprwyedig, fel yr amlinellir ym mharagraff 5.2.3;

8.1.5 cymeradwyo'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a fydd yn sylfaen i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod;

8.1.6 rhoi awdurdod i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, i wneud unrhyw newid sy'n angenrheidiol o ganlyniad i setliad terfynol Llywodraeth Cymru a oedd i'w gyhoeddi ar 27 Chwefror 2024.

8.2. RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD (CRONFA'R CYNGOR) 2024/25 - 2028/29

Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad a oedd yn dwyn ynghyd y cynigion diweddaraf am raglen gyfalaf bum mlynedd 2024/25 hyd at 2028/29. Roedd yr adroddiad yn cymryd i ystyriaeth yr ymgynghoriad a gynhaliwyd a'r goblygiadau refeniw oedd yn deillio o'r rhaglen.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau mai'r gwariant gros arfaethedig ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024/25 oedd £86.930m, a'r bwriad oedd i'r Cyngor Sir gyllido £50.374m o'i adnoddau ei hun drwy ddefnyddio benthyciadau, arian wrth gefn, ariannu drwy refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf a grant cyfalaf cyffredinol, a bod y £36.556m o gyllid oedd yn weddill yn dod o ffynonellau allanol.

Byddai'r rhaglen gyfalaf newydd yn cael ei hariannu'n llawn dros y pum mlynedd, ond cynigiwyd tanymrwymo peth o'r cyllid oedd ar gael i roi hyblygrwydd ar draws y rhaglen i dalu am unrhyw gostau ychwanegol. Roedd strategaeth gyfalaf yr Awdurdod, sy'n ofynnol gan y Côd Darbodaeth ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol, wedi'i diweddaru ac mae'n nodi'r cyd-destun hirdymor y gwneir penderfyniadau gwariant cyfalaf a buddsoddi ynddo. Rhoddodd ystyriaeth briodol i risg a gwobrwyo a'r effaith ar gyflawni canlyniadau blaenoriaethol. Roedd y strategaeth gyfalaf yn cwmpasu gwariant ar Gronfa'r Cyngor a chyfalaf HRA a chafodd ei chynnwys fel Atodiad C i'r adroddiad.

Dywedwyd y byddai £193m yn cael ei fuddsoddi yn y rhaglen newydd dros y pum mlynedd nesaf, £61m ohono ar gyfer yr ymrwymiad parhaus i wella adeiladau ysgolion, £12m tuag at Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl i helpu i drawsnewid ansawdd bywyd llawer o bobl yn eu cartrefi eu hunain, £34m ar gyfer prosiectau adfywio i hybu gweithgarwch economaidd, £16m i gwblhau'r prosiect Pentre Awel a gefnogir gan y Fargen Ddinesig a oedd yn cynnwys canolfan hamdden newydd i Lanelli, £43m i wella seilwaith priffyrdd economaidd lleol a seilwaith ailgylchu a £21m ar gyfer caledwedd a seilwaith TG digidol critigol.

Cydnabuwyd, er gwaethaf anawsterau'r amgylchedd economaidd presennol, fod y rhaglen gyfalaf arfaethedig wedi ymrwymo i fuddsoddiad sylweddol dros y pum mlynedd nesaf. Ei nod oedd manteisio ar y cyfleoedd cyllido a'r cyllid gan ffynonellau allanol posibl. Byddai cyfuniad o gynlluniau newydd a phresennol, yn unol â gweledigaeth gorfforaethol y Cyngor, yn datblygu'r economi leol, yn creu swyddi ac yn gwella ansawdd bywyd trigolion Sir Gâr ac ymwelwyr, gan ddiogelu ein hadnoddau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn ogystal, nodwyd y llwyddwyd i gael £15.5m o gyllid Ffyniant Bro ar gyfer Canol Tref Llanelli a fyddai'n cael cyllid cyfatebol trwy fuddsoddiad o £2.5m o adnoddau ac y byddai gwaith yn dechrau gyda Llywodraeth y DU i gytuno ar brosiect hyfyw.

Tynnwyd sylw at feysydd eraill:-

- Cafodd dros £20m o gyllid ei gynnwys yn y rhaglen ar gyfer cerbydau newydd yn lle'r rhai sy'n heneiddio ac sy'n creu mwy o lygredd.

- Mae £14m tuag at gerbydau newydd ar gyfer cyflwyno'r cynllun didoli ac ailgylchu o dŷ i dŷ.

- Er mwyn gwella seilwaith ailgylchu, cynigiwyd sicrhau bod cyfleuster benthyca o £10m ar gael i CWM Environmental i ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth ailgylchu yn Nantycaws.

- Bydd angen £4.2m dros y pum mlynedd nesaf ar gyfer datblygu a gwella seilwaith digidol ac felly cynigwyd i'w gynnwys yn y rhaglen.

- Parhaodd y gefnogaeth i Barth 1 datblygiad Pentre Awel yn Llanelli. Nod y prosiect unigryw hwn oedd creu cannoedd o swyddi a thrawsnewid tirwedd ac economi de Llanelli, Sir Gaerfyrddin, a rhanbarth ehangach Gorllewin Cymru.

- Cafodd £1.4m ei gynnwys ar gyfer ailddatblygu Oriel Myrddin. Byddai hyn yn golygu mai cyfanswm y pecyn buddsoddi ar y prosiect pwysig hwn yw £3.5m.

- Roedd y cynllun yn cynnwys rhaglen fuddsoddi dreigl gwerth dros £45m mewn amrywiaeth o wasanaethau. Fodd bynnag, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau ei bod yn siomedig nodi nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cyllid grant Cynnal a Chadw Priffyrdd yn y setliad Llywodraeth Leol, felly dyrannwyd £2m o adnoddau'r Cyngor er mwyn gwella amodau'r ffyrdd.

  Tynnwyd sylw'r Cyngor at un newid. Fel rhan o'r setliad dros dro a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr, roedd cyllid cyfalaf yn wreiddiol yn mynd i gael ei leihau £19,000 o'i gymharu â Chyllid 2023-24. Fodd bynnag, yn dilyn y setliad terfynol a gafwyd ar 28 Chwefror 2024, cyhoeddwyd Atodiad A wedi'i ddiweddaru, a oedd yn dangos bod cyllid cyfalaf a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yn mynd i barhau

ar £11,989,000 ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd hyn yn golygu y byddai £19,000 yn ychwanegol o gyllideb heb ei dyrannu yn cael ei derbyn yn flynyddol am y pum mlynedd nesaf.

Gwnaed nifer o ddatganiadau mewn ymateb i gynigion y rhaglen gyfalaf a mynegwyd eu gwerthfawrogiad o ran y prosiectau parhaus gan nodi eu pryderon mewn perthynas â'r heriau a wynebir yn y dyfodol oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol a phryderon ynghylch cyllidebau yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

8.2.1 Bod y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd a'r cyllid, fel y'i nodwyd yn Atodiad A, gyda 2024/25 yn gyllideb bendant a chyllidebau 2025/26 – 2028/29 yn gyllidebau amhendant/dangosol yn cael eu cymeradwyo;

8.2.2 Bod y rhaglen yn cael ei hadolygu, yn ôl yr arfer, oni lwyddir i gael y cyllid cyngor sir neu allanol disgwyliedig.

8.2.3 Bod y Strategaeth Gyfalaf yn Atodiad C yn cael ei chymeradwyo;

8.2.4 Bod y Cabinet/Cyngor Sir yn dirprwyo i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, i wneud unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol o ganlyniad i setliad terfynol Llywodraeth Cymru a oedd i'w gyhoeddi ar 27 Chwefror 2024.

8.3. POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH 2024-25

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror, 2024 (gweler Cofnod 8) wedi ystyried Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25.

Roedd yr adroddiad wedi'i lunio yn unol â gofynion Côd Ymarfer diwygiedig CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys 2017, lle roedd y Cyngor wedi cytuno'n flaenorol i gynnal Polisi Rheoli'r Trysorlys a oedd yn manylu ar bolisïau ac amcanion gweithgareddau'r Awdurdod o ran Rheoli'r Trysorlys. Nodwyd ei bod hefyd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol yr oedd yn ymwneud â hi. Yn ogystal, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn i ddod.

PENDERFYNWYD:

8.3.1 bod Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024-25 a'r argymhellion a nodwyd ynddynt yn cael eu cymeradwyo;

8.3.2 bod Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, y Dangosyddion Darbodaeth, y Datganiad ynghylch y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, y Strategaeth Fuddsoddi, a'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo.

8.4. DEDDF TRWYDDEDU 2003 ADOLYGIAD O'R BOLISI TRWYDDEDU ACSESIADAU EFFAITH GRONNOL

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr J.P. Hart, C.A. Jones a P.M Hughes wedi datgan buddiant yn yr eitem yn gynharach, a gadawodd y cynghorwyr y cyfarfod tra bo'r Cyngor yn trafod yr eitem ac yn pleidleisio yn ei chylch.]

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr, 2024 (gweler cofnod 11) wedi ystyried adroddiad yn manylu ar yr adolygiad o Bolisi Trwyddedu ac Asesiadau Effaith Gronnol yr Awdurdod. Roedd yn ofynnol, yn ôl deddfwriaeth, i'r polisi trwyddedu gael ei adolygu bob pum mlynedd ac Asesiadau Effaith Gronnol (CIAs) bob tair blynedd, er mwyn sicrhau eu bod dal yn briodol.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, eglurodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, fod Swyddogion, yn ystod yr adolygiad diweddar o Heol yr Orsaf, Llanelli a Heol Awst, Caerfyrddin wedi ymgynghori ar y potensial i gynnwys ardaloedd eraill yn yr Ardaloedd Effaith Gronnol sef Maes Nott, Heol y Brenin a Heol y Frenhines, Caerfyrddin. Gwnaed hyn yn dilyn cais gan Gyngor Tref Caerfyrddin ac eraill fel ymateb i'r cynnydd yn nifer y cwynion a dderbyniwyd.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar dystiolaeth gref a gasglwyd o ymgynghoriad a sylwadau a dderbyniwyd gan y rhanddeiliaid.

Argymhellodd y Cabinet, ar ôl nodi'r manteision a'r anfanteision ac ystyried y 3 opsiwn, fel y nodwyd yn yr adroddiad, fod y Cyngor yn dewis opsiwn 3 – 'Mabwysiadu Asesiad Effaith Gronnol newydd ar gyfer Maes Nott, Heol y Brenin a Heol y Frenhines, Caerfyrddin a chadw'r asesiadau presennol o fewn y Polisi diweddaraf, i gynnwys polisi 'eithriadau' yn unol â'r Datganiad Polisi Trwyddedu cyfredol.'

PENDERFYNWYD

8.4.1 dewis opsiwn tri, fel y nodir yn y Crynodeb Gweithredol, fel yr opsiwn polisi mwyaf priodol ar gyfer yr Asesiadau Effaith Gronnol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn Sir Gaerfyrddin orau;

8.4.2 cymeradwyo'r Datganiad Polisi Trwyddedu sy'n adlewyrchu'r opsiwn a ddewiswyd.

9. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:

9.1. 15 IONAWR 2024

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd F. Walters wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, ac arhosodd yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth a'r bleidlais).

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Ionawr, 2024.

9.2. 29 IONAWR 2024

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Ionawr, 2024.

10. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD:-

10.1. CWESTIWN GAN MR DAVID JENKINS I'R CYNGHORYDD ALED VAUGHAN-OWEN, YR AELOD CABINET DROS NEWID HINSAWDD, DATGARBONEIDDIO A CHYNALIADWYEDD

'Roedd cyfarfod diweddar yng Nglanyfferi, a drefnwyd gan aelodau lleol i ymateb i lifogydd mis Ionawr wedi nodi'r canlynol:-

Gallai gweithredoedd gwael fod wedi cyfrannu at risg llifogydd neu fod wedi arwain at fethu cynnal asedau. Bod hanes o ran diffyg gwaith peirianneg a chynnal a chadw wedi cyfrannu at y llifogydd.

- Nid oes cynlluniau clir ar waith i ymateb i lifogydd
- Nid oes cynlluniau'n bodoli o ran ôl-ofal i'r bobl y mae llifogydd wedi effeithio arnynt
- Er gwaethaf ymwybyddiaeth hirsefydlog ynghylch risgiau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, nid oes cynllun strategol ar gyfer lliniaru risgiau cynyddol
- Mae diffyg cydlynu rhwng asiantaethau sy'n gyfrifol am wytnwch lleol.

Felly pa gamau y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd i leddfu effaith llifogydd ar drigolion Sir Gaerfyrddin?'

Ymateb gan y Cynghorydd Aled Vaughan-Owen - yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd:-

Diolch yn fawr iawn Mr Jenkins am eich cwestiwn pwysig iawn ac amserol. Cyn ateb, hoffwn, ar ran yr Awdurdod, gydymdeimlo â holl drigolion y Sir sydd wedi wynebu cyfnod anodd iawn dros y misoedd diwethaf oherwydd llifogydd a thywydd garw a hefyd diolch i'r cymunedau sydd wedi dod at ei gilydd i oresgyn sefyllfaoedd heriol. Hoffwn ddiolch hefyd i swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin a oedd wedi helpu yn ystod y cyfnod hwnnw. Gan gynnwys y Cynghorydd Carys Jones yn Llansteffan am ei gwaith diflino yn ystod y llifogydd a hefyd i'r Cynghorwyr Crish Davies a Lewis Davies sydd wedi trefnu cyfarfod yng Nglanyfferi i drafod y sefyllfa yno. Yn wir, mae nifer yn ddiolchgar iawn am eich arweinyddiaeth ac am drefnu sgyrsiau yn y Gymuned. Nid oeddwn yn bresennol yn y cyfarfod yng Nglanyfferi i glywed y sylwadau, ond gallaf gyfeirio at rai o'r pwyntiau rydych wedi'u nodi fel rhan o'r ateb.

Fel yr wyf wedi dweud ar sawl achlysur yma yn y siambr, mae dynoliaeth ar bwynt tyngedfennol yn ei hanes, mae tystiolaeth gynyddol o bob cwr o'r byd yn awgrymu ein bod ar yr unfed awr ar ddeg yn y frwydr yn erbyn dirywiad o ran yr hinsawdd a natur, a bydd y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud neu'n methu â'u gwneud yn cael effaith nawr ac ar genedlaethau'r dyfodol. Dyna pam mae'n fraint bod yn rhan o'r Cyngor hwn sydd wedi pleidleisio'n unfrydol o blaid datgan dau argyfwng ac wedi mynnu bod y weinyddiaeth hon yn rhoi'r hinsawdd a natur wrth wraidd y penderfyniadau a wnawn.

Nid yw'r Dirywiad o ran yr Hinsawdd yn rhywbeth sy'n digwydd i bobl eraill mewn rhyw wlad bell, yma yng Nghymru rydym yn gweld enghreifftiau uniongyrchol o dywydd eithafol, yn enwedig llifogydd, wrth i gymunedau wynebu newidiadau yn lefel y môr a phatrymau tywydd afreolaidd a seilwaith sy'n heneiddio na chafodd ei gynllunio i ddelio â'r hyn yr ydym bellach yn ei brofi. Mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i liniaru effeithiau gwaethaf Dirywiad o ran yr Hinsawdd, a dyna pam rwy'n falch o'n cynlluniau datgarboneiddio ar draws holl adrannau'r Cyngor hwn, ond bellach mae angen dechrau addasu ein cymunedau i'r newid yn yr hinsawdd sy'n anochel ac sy'n rhuthro tuag atom.

Mae llifogydd yn fater cymhleth sy'n golygu bod angen i randdeiliaid ar bob lefel gymryd rhan ragweithiol mewn paratoadau, ymateb ac adferiad. Mae'r mathau o lifogydd yn amrywio ac yn gymhleth gan gynnwys llifogydd afonol, glaw, llanw a llawer mwy o amrywiadau. Ar draws Sir Gaerfyrddin mae tua 12,000 o gyfeiriadau mewn perygl o ryw fath o lifogydd.

Yn strategol, mae Llywodraeth Cymru yn gosod y cyfeiriad, amcanion ac yn blaenoriaethu cyllid cyfalaf a refeniw mewn ymateb i berygl llifogydd, tra bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am oruchwylio a chyfathrebu o ran perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Mae'n rheoli llifogydd o'r holl brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr ac yn rheoli risg o ran ei waith i ddiogelu'r arfordir fel awdurdod rheoli risg erydu arfordirol.

Fel Awdurdod Lleol, ni yw'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol sy'n rheoli llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin, dŵr wyneb, dŵr daear, gwaith i ddiogelu'r arfordir ac hefyd yn gyfrifol am ddraenio priffyrdd fel yr Awdurdod Priffyrdd. Yna, mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r gefnffordd drwy systemau draenio'r priffyrdd ar y gefnffordd genedlaethol.. Mae Dŵr Cymru yn gyfrifol am reoli llifogydd o'i systemau dŵr a'i systemau carthffosiaeth. Mae llu o bartneriaid sydd â thir a seilwaith allweddol mewn gwahanol rannau o'r wlad. O ran y rhanddeiliaid hyn, nid oes unrhyw ddyletswyddau statudol arnynt. Mewn gwirionedd, Cyngor Sir Caerfyrddin yw Cadeirydd Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru.

Mae gwybodaeth amserol a chywir yn elfen hanfodol o ran rheoli'r ymateb gweithredol i'r tywydd sy'n datblygu. Mae'r tywydd yn y DU yn destun set dynamig a chymhleth iawn o newidion, a datblygir rhagolygon i ddarparu'r ddealltwriaeth orau bosibl o dywydd tebygol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod mai rhagolygon yn unig yw'r rhain a gall y tywydd gwirioneddol fod yn wahanol i'r hyn a ddisgwylir.

Mae'r Cyngor Sir yn gweithio'n agos gyda nifer o asiantaethau i rannu gwybodaeth a chydlynu ymatebion.

Fel arfer, bydd yr Awdurdod yn cael rhybudd o dywydd garw ymlaen llaw drwy:

- Y Ganolfan Darogan Llifogydd Genedlaethol.
- Ymgynghorydd Argyfyngau Sifil y Swyddfa Dywydd.
- Rhybuddion Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Rhybuddion tywydd y Swyddfa Dywydd (Rhybuddion Melyn/Oren/Coch)
- Safleoedd monitro tywydd ar ochr y ffordd a systemau rhybuddio o fewn Sir Gaerfyrddin a'r ardal gyfagos.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn darparu gwybodaeth i'n hasiantaethau partner a'n rhagolygwyr tywydd o gyfres o orsafoedd tywydd sydd wedi'u lleoli'n strategol o amgylch y Sir i ddarparu'r gynrychiolaeth orau bosibl o dywydd lleol. Ar hyn o bryd mae 13 o orsafoedd tywydd pwrpasol o'r fath sy'n darparu ystod eang o ddata tywydd drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys gwybodaeth am dymheredd wyneb y ffordd, tymheredd yr aer, lleithder, gwynt a data glawiad ynghyd â delweddau camera amser real cyfredol.

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin ddisgwyliadau pellach o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil ar gyfer parodrwydd ac ymateb i argyfyngau fel llifogydd. Rydym yn bartneriaid allweddol ar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys, sy'n cynnwys partneriaid golau glas fel Heddlu Dyfed Powys, Hywel Dda, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Gwasanaeth Ambiwlans, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cwmnïau Dosbarthu Pŵer ac eraill. Mae'r Fforwm hwn yn hanfodol ar gyfer ymateb i argyfyngau sylweddol a sicrhau bod adnoddau cyfyngedig yn cael eu cydlynu'n briodol i baratoi, lliniaru ac ymateb i'r hyn a allai fod yn sefyllfaoedd sy'n peryglu bywyd. Er nad yw'n Wasanaeth golau glas, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn bartner hanfodol ar y lefel hon ac yn darparu arbenigedd gwerthfawr ac mae'n gyfrifol am lu o gynlluniau a gweithdrefnau wedi'u hymarfer yn dda ar gyfer pob math o senario.

Un ohonynt yw gweithio gyda bron i 50 o adeiladau cymunedol a fyddai'n dod yn ganolfannau gorffwys mewn argyfwng pe bai galw am hynny. Mae gan bob un gynlluniau a gweithdrefnau rheoli mewn argyfwng dynodedig a staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda i gydlynu.

Mae gan Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Gofrestr Risg ddynodedig gyda dolenni defnyddiol a thempledi ar gyfer deall y risg sy'n wynebu aelwyd, busnes neu gymuned a chyfleoedd i greu eich cynllun pwrpasol eich hun.

Yn ddiweddar rydym wedi cymeradwyo ein Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol sy'n gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn y sir. Mae'r ddogfen hon wedi cael ei chraffu'n drylwyr gan gydweithwyr o bob rhan o'r siambr ar y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd a bydd yn destun ymgynghori dros yr wythnosau nesaf. Rwy'n hapus i rannu'r dolenni gyda chi yn y dyfodol. Yn ogystal â hyn, byddwn yn gweithio o fewn y 7 dalgylch basn afon a nodwyd yn y strategaeth i ddatblygu cynlluniau gweithredu llifogydd lleol ar y cyd.
Wythnos i heddiw, bydd pob aelod o'r siambr hon yn cael cynnig seminar hyfforddi ar Reoli Perygl Llifogydd Lleol ac rwy'n hyderus y bydd aelodau'n ymgysylltu â'r gwaith i'w galluogi i ddod yn hyrwyddwyr lleol o ran datblygu'r cynlluniau lefel cymunedol ar y cyd â'r holl randdeiliaid. O ystyried y pwysau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus, mae cynlluniau gweithredu llifogydd a arweinir gan y gymuned yn grymuso trigolion lleol i ddod yn gyfranogwyr gweithredol wrth liniaru peryglon llifogydd, hybu gwytnwch, a diogelu eu cymunedau rhag effeithiau llifogydd.

Felly, rwy'n gobeithio y bydd hynny'n rhoi dealltwriaeth i chi o'r gwaith sy'n gysylltiedig â pheryglon llifogydd ac yn rhoi hyder i chi fod llu o gynlluniau a gweithdrefnau ar waith o ran paratoi, ymateb i ddigwyddiadau llifogydd neu senarios tywydd eithafol eraill.

Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na ellir gwneud mwy. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid eraill, lobïo am gyllid priodol a phwysleisio pwysigrwydd addasu ein cymunedau, lliniaru risgiau ac wrth gwrs cefnogi cymunedau sy'n wynebu'r risg uchaf i fynd ati i gymryd rhan mewn llunio cynlluniau ar y cyd i feithrin gwytnwch a'r gallu i adfer.

Cwestiwn atodol gan Mr David Jenkins:

Ydych chi'n meddwl bod Fforwm Lleol Cymru Gydnerth mor ddefnyddiol â beic i bysgodyn yn y digwyddiadau diweddar yng Nglanyfferi? Oherwydd nid oedd llawer o dystiolaeth, ond rwy'n croesawu'r syniad o bwyllgorau a arweinir gan y gymuned sy'n bwyllgorau lleol a all wneud rhywbeth. A hoffwn gael gwybod faint o adnoddau sy'n debygol o gael eu rhoi tuag at ddatblygu'r adnoddau cymunedol hynny, a fydd, gobeithio, yn ddefnyddiol mewn digwyddiadau yn y dyfodol, y mae llawer ohonynt wedi'u rhagweld.

Ymateb gan y Cynghorydd Aled Vaughan-Owen - yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd:-

Diolch i chi am eich cwestiwn. Fel y dywedais, mae cymdeithas yn wynebu heriau enfawr o ran yr argyfwng hinsawdd a hefyd pwysau ariannol wrth i Lywodraeth San Steffan wneud cawlach o ran gofalu am gyllid ond mae'n rhaid i ni gymryd camau yma yng Nghymru i ddiogelu ein cymunedau a'u cynnwys yn y ffordd yr ydym yn trefnu cynlluniau perthnasol.

Mae gan gymunedau wybodaeth fanwl am ddaearyddiaeth, dyfrffyrdd a phatrymau llifogydd hanesyddol eu hardal. Mae'r wybodaeth hon yn werthfawr ar gyfer deall peryglon llifogydd a llunio strategaethau lliniaru effeithiol. Ac oherwydd bod gwendidau ac anghenion llifogydd pob cymuned yn unigryw, mae cynlluniau a arweinir gan y gymuned yn caniatáu datblygu atebion wedi'u teilwra sy'n mynd i'r afael â heriau a blaenoriaethau lleol penodol.

Rydym ni fel awdurdod llifogydd lleol arweiniol bellach yn cynnal ymchwiliad i'r llifogydd dros gyfnod y Nadolig, sy'n amser delfrydol i drafod y posibilrwydd o gynnwys y gymuned a'r ffordd orau o gefnogi hynny. Pan fydd yr ymchwiliad hwn yn dod i ben, bydd y canfyddiadau'n cael eu rhannu gyda'r holl randdeiliaid.

Neithiwr, cafodd digwyddiad llifogydd cymunedol ei gynnal yng Nghydweli ac roedd nifer o'r sefydliadau a oedd yn bresennol yn cadarnhau parodrwydd cryf i gydweithio.

Fel yr ydych wedi gweld heddiw, mae'r Awdurdod hwn, fel cymaint o rai eraill, yn gorfod gwneud penderfyniadau ariannol anodd iawn, ond rydym yn ffodus iawn o gael staff ymroddedig a chydwybodol sy'n gweithio'n ddiflino i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'n preswylwyr.

Fel y soniais, mae ein Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yn nodi ein hymrwymiad i ddatblygu cynlluniau llifogydd lleol ar y cyd a fydd yn dechrau dros y misoedd nesaf. Byddai'n wych cael cynghorwyr lleol fel rhan o'r digwyddiadau hyn, yn cefnogi'r sgyrsiau ac yn nodi'r rolau unigryw y gall cymunedau eu chwarae i helpu i lywio'r gallu i wrthsefyll llifogydd ac argyfyngau eraill.

Rydym yn chwilio'n gyson am gyfleoedd ariannu i dyfu'r tîm a bydd hyn yn parhau yn y flwyddyn ariannol nesaf, ond rydym newydd ymrwymo i ragor o gapasiti trwy swyddog addasu arfordirol a fydd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned. Wrth i'n rhaglen gwaith cyfalaf dyfu, byddwn yn cynnwys ymgysylltu â'r gymuned a gwytnwch cymunedol yn y cynlluniau. Yn amlwg, wrth symud ymlaen ni fydd heriau rheoli llifogydd yn gallu canolbwyntio ar seilwaith caled yn unig, ond bydd angen edrych ar atebion seiliedig ar natur ac yn aml mewn gwahanol rannau o'r dalgylch. Gobeithiwn y gall y rhain fod yn enghreifftiau o arfer da a'u bod yn dangos cyfleodd i ddangos sut y gallwn gyflawni nifer o fanteision i gymunedau sydd mewn perygl, iechyd, twristiaeth, hinsawdd a natur.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf mae Sir Gaerfyrddin, drwy'r gronfa ffyniant gyffredin, wedi helpu i ariannu dros 8 miliwn o brosiectau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae'n amlwg bod cymunedau a sefydliadau fel eich un chi, Caerfyrddin Gyda'n Gilydd, yn cydnabod yr angen i liniaru ac addasu i'r dirywiad o ran yr hinsawdd. Efallai y bydd eich siop Sero yng Nghaerfyrddin yn lleoliad ardderchog ar gyfer ffair lifogydd o ryw fath lle gallai ymwelwyr weld enghreifftiau o ymyriadau posibl ar lefel aelwydydd.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda phrosiect Green 24 Coleg Sir Gâr sy'n ceisio uwchsgilio cymdeithas o ran y sgiliau sydd eu hangen mewn dyfodol gwahanol iawn. Un o nodau'r prosiect yw ailddatblygu ac addasu adeilad presennol ar orlifdir yng Ngelli Aur i ddangos sut y gellir addasu'r stoc adeiladau presennol ar gyfer byd lle mae llifogydd yn digwydd yn amlach.

Byddwn wrth fy modd yn siarad ag unrhyw grŵp a hoffai ymgysylltu â ni ynghylch addasu a chydnerthu cymunedol.

Mae angen i ni gofio nad yw'r daith tuag at cydnerthedd a chynaliadwyedd yn un yr ydym yn ymgymryd â hi ar ein pen ein hunain. Mae'n ymdrech ar y cyd, wedi'i blethu â llinynnau cydweithredu, arloesi ac ysbryd cymunedol. Fel Awdurdod Lleol, rydym wedi ymrwymo i arwain yr ymgyrch, ond trwy gryfder ein gweithredoedd a'n llais unedig y byddwn yn creu dyfodol lle mae ein cymunedau yn ffynnu yng nghanol heriau'r dirywiad o ran yr hinsawdd. Felly, gyda'n gilydd, rwy'n gobeithio y gallwn groesawu'r cyfle i ddiogelu ein planed, grymuso ein pobl, ac adeiladu gwaddol o wytnwch ar gyfer cenedlaethau i ddod.

10.2. DR ANTHONY LAXTON AT Y CYNGHORYDD ANN DAVIES - AELOD CABINET DROS FATERION GWLEDIG, CYDLYNIANT CYMUNEDOL A PHOLISI CYNLLUNIO

[Sylwer:

- Ymatebodd y Cynghorydd Linda Evans, Aelod Cabinet dros Gartrefi ar ran y Cynghorydd Ann Davies, Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig, Cydlyniant Cymunedol a Pholisi Cynllunio gan fod yn rhaid iddi adael y cyfarfod cyn yr eitem hon;
- Roedd y Cynghorydd N. Lewis wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, ac arhosodd yn y cyfarfod.

'Yng ngoleuni datgan argyfwng hinsawdd yn 2019 a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, a fyddai'r Cyngor yn ystyried adolygu ei ystyriaeth tuag at roi caniatâd cynllunio ar gyfer paneli solar a mentrau arbed ynni eraill mewn ardaloedd cadwraeth? Mae'n ymddangos y gall fod gwrthdaro hyd yn oed wrth osod y rhain ar adeiladau eithaf cyffredin ei golwg gyda thoeau llechi Cymreig os yw'r adeilad wedi ei adeiladu cyn 1919. Yn yr achos hwn, dylai cadwraeth fabwysiadu diffiniad ehangach – nid yn unig canolbwyntio ar gadwraeth hanesyddol adeiladau ond ar gadwraeth hirdymor ein cymunedau a'n hamgylchedd drwy ganiatáu mwy o ryddid.'

Ymateb gan y Cynghorydd Linda Evans, yr Aelod Cabinet dros Gartrefi:-

Diolch ichi am y cwestiwn. Ymddiheuriadau nad yw'r Cynghorydd Ann Davies yma, mae mewn cyfarfod arall. Cyngor Sir Caerfyrddin oedd yr Awdurdod cyntaf yng Nghymru i ddatgan argyfwng newid hinsawdd a chyhoeddodd ei gynllun sero net. Mae'n cymryd ei gyfrifoldebau yn hyn o beth o ddifrif. Mae ganddo ymrwymiad parhaus i newid tuag at economi carbon isel er mwyn diogelu dyfodol cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol. Dyma'r unig Awdurdod Lleol yng Nghymru sydd â chanolfan

hyfforddiant a gwybodaeth sy'n ymroddedig i gynaliadwyedd adeiladau a godwyd cyn 1919 a sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae darparu cyrsiau hyfforddiant rheolaidd mewn atgyweirio, cynnal a chadw ac effeithlonrwydd ynni ym mhob adeilad yn rhan greiddiol o'r rhaglen hon.

Ar draws Cymru mae gennym oddeutu 500,000 o adeiladau a godwyd cyn 1919 sy'n cyfateb i draean o'n stoc dai. O'r rhain, mae 189,000 ar 13% yn yr ardal gadwraeth ac mae 30,000 o strwythurau rhestredig, gan gynnwys cartrefi, eglwysi, pontydd a cherrig milltir. Mae ymchwil wedi dangos bod diogelu adeiladau hanesyddol a'r amgylchedd yn darparu budd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol i le ac yn aml yn denu busnes ac ymwelwyr i'r ardal. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod ardaloedd cadwraeth ac adeiladau rhestredig yn chwarae rhan bwysig yn iechyd a chynaliadwyedd ein cymunedau ac felly mae asesiad o unrhyw ddatblygiad megis gosod paneli solar bob amser yn cael ei ystyried fesul achos yn unol â'r datblygiad a chynigion y datblygiad. Mewn llawer o achosion, nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer gosod paneli solar ar doeau, er enghraifft ar breswylfeydd y tu mewn neu'r tu allan i'r ardal gadwraeth, cyn belled â bod amodau penodol yn cael eu bodloni. Pan fo angen caniatâd cynllunio, gosodir asesiadau cynllunio o fewn fframwaith deddfwriaeth genedlaethol, megis, Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Pholisi Cynllunio Cymru a gwneir dyfarniad ar ystod eang o faterion yn y broses asesu, gan gynnwys cynaliadwyedd hirdymor ein cymunedau a'u gallu i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Ym mhob achos, byddwn yn argymell bod unrhyw ymgeisydd sy'n gwneud cais yn siarad â'r swyddogion cynllunio ac yn cysylltu â Chanolfan Tywi am gyngor. Mae'r ganolfan hon yn adnodd ardderchog yn ein Sir. Gobeithiaf fod hynny'n ateb eich cwestiwn, os oes gennych ail gwestiwn ac mae hawl gennych ofyn ail gwestiwn, rwy'n siŵr y byddai'r swyddog, Rhodri, yn ymateb ar ran y Cynghorydd Ann Davies.

Cwestiwn atodol gan Mr David Jenkins:

Yn ffodus, rwy'n ymwybodol o'r hyn y mae'r Cyngor wedi'i wneud ac yn ei wneud er mwyn hyrwyddo inswleiddio ac yn benodol byddai camau eraill yn helpu tuag at newid yn yr hinsawdd. Rhoddodd y datganiad o argyfwng hinsawdd a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyfle i ni i gyd ailosod y ffordd rydym yn mynd ati i gynllunio ac mae cyfle yma i sicrhau'r budd mwyaf i'r hinsawdd a'r amgylchedd ar adeg argyfwng costau ac argyfwng cyllidebol yr ydym i gyd yn eu hwynebu. Felly, rwy'n dawel fy meddwl o glywed eich bod chi'n gwneud yr hyn y gallwch. Mae hyn yn cynnwys adeiladau nad ydynt yn cael eu gwarchod hefyd, mae angen i ni weld mwy o baneli solar ar ddatblygiadau newydd ac ar adeiladau nad ydynt yn cael eu gwarchod, mae angen i ni weld gwell insiwleiddio hefyd ar yr adeiladau hyn. Mae'n drist gweld rhai yn dal i fynd i fyny. Diolch yn fawr.

Ymateb gan y Cynghorydd Linda Evans, yr Aelod Cabinet dros Gartrefi:-

Mewn ymateb i'ch pwynt am baneli solar ar gyfer tai newydd, fel Cyngor, rydym wedi bod yn buddsoddi mewn tai Cyngor newydd ac felly bydd yr holl dai cymdeithasol newydd yn Sir Gaerfyrddin heddiw yn cael eu hadeiladu gyda phaneli solar. Yn amlwg, os yw'n bosibl gwneud hynny, ac rydym hefyd yn gwneud rhaglen ôl-osod ar gyfer gwneud gwaith ar ein cartrefi presennol hefyd, yn ein tai Cyngor. Hoffwn eich sicrhau bod y Cyngor yn gwneud yr hyn a allwn gyda'n cartrefi a'n hadeiladau ein hunain fel yr un hwn (Neuadd y Sir).

10.3. MS TARA-JANE SUTCLIFFE I'R CYNGHORYDD EDWARD THOMAS - YR AELOD CABINET DROS WASANAETHAU TRAFNIDIAETH, GWASTRAFF A SEILWAITH

'Yn 2021 sicrhaodd y Cyngor £16.7m o gyllid y Gronfa Ffyniant Bro gan Lywodraeth y DU ar gyfer Llwybr Beicio Dyffryn Tywi. Roedd yn ofynnol i'r holl gyllid gael ei wario erbyn 31 Mawrth 2024 neu, mewn amgylchiadau eithriadol, erbyn 31 Mawrth 2025. Ymhellach i hynny, ac o ystyried yr oedi hyd yma, mae'n debyg bod gan y Cyngor senario wedi'i gynllunio rhag ofn na fydd yn bodloni'r dyddiad cau estynedig. Pa gostau a ragwelwyd fyddai gan y Cyngor pe bai'r gwaith heb ei gwblhau ar 31 Mawrth 2025, a sut y cyllidebwyd ar gyfer hyn?

Ymateb gan y Cynghorydd Edward Thomas - yr Aelod Cabinet Dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith:-

Diolch i chi am eich cwestiwn.

Fel y gwyddoch yn barod, mae rhan o Lwybr Beicio Dyffryn Tywi eisoes ar agor, agorodd y llwybr sy'n cysylltu Amgueddfa Caerfyrddin yn Abergwili â Bwlch Bach i Fronun, ac yn ymestyn i Felin-wen, ychydig amser yn ôl. Fel y disgwyliwn o'r llwybr gorffenedig, mae'n cynnig golygfeydd prydferth i feicwyr a cherddwyr, gan gynnwys golygfeydd o gerddi Palas yr Esgob. Mae'n darparu ffordd ddiogel heb draffig i bobl feicio a gweld y Sir.

Nawr, mae tair rhan i'ch cwestiwn, 'a fydd yr arian yn cael ei wario erbyn y dyddiad cau gwreiddiol?', 'a ydym wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer gwariant?', a 'beth allai ddigwydd os na fyddwn yn cadw at ddyddiad cau diwygiedig?'.

Felly, i ymdrin â'r ddau gwestiwn cyntaf, a fydd yr arian yn cael ei wario erbyn y dyddiad cau gwreiddiol ac a ydym wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer gwariant? Fel y soniais yn gynharach, mae rhywfaint o'r llwybr eisoes ar agor ac mae'r gwaith yn parhau, rydym yn gweithio ar ran mewn Nantgaredig ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid yw'r Ymchwiliad Gorchymyn Prynu Gorfodol (CPO) a gynhaliwyd ym mis Tachwedd wedi rhoi penderfyniad eto. Er mwyn hwyluso'r sefyllfa, rydym wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd i bwysleisio'r angen am benderfyniad buan gan y gweinidog fel y gall y Cyngor, os caiff y Gorchymyn ei gymeradwyo, symud ymlaen i'r cam nesaf o gaffael Tir y

Gorchymyn, gan sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni cyn gynted â phosibl. O gofio hyn, o dan delerau'r cyllid, gwnaed cais am addasiad i brosiect ym mis Gorffennaf y llynedd, ac yn dilyn hynny rhoddwyd estyniad ffurfiol i ni gan ganiatáu i'r arian o'r gronfa Ffyniant Bro fod ar gael tan 31 Mawrth 2025. Mewn gwirionedd, estyniad o flwyddyn.

Felly, beth fydd yn digwydd os na fyddwn yn cadw at ddyddiad cau diwygiedig? Wel, rydym yn parhau i fod yn hyderus, hyd yn oed os na all gwaith adeiladu barhau'n llawn tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn, trwy dendro sawl pecyn adeiladu i gyd-redeg, byddwn yn cyflawni'r Grant Ffyniant Bro yn llawn o fewn y dyddiad cau. Fel rhan o'r dyfarniad grant, roedd gofyn i ni ddarparu arian cyfatebol ar gyfer y prosiect sy'n cyfateb i £1.864m, mae'r cyllid hwn eisoes wedi'i ymrwymo i'r prosiect.
Nid yw'r elfen hon o gyllid y Cyngor Sir yn destun cyfyngiadau amser ac felly gellir darparu ar gyfer unrhyw or-redeg y tu hwnt i 31 Mawrth 2025.

Mae Llwybr Beicio Dyffryn Tywi yn brosiect pwysig i Sir Gaerfyrddin ac i dwristiaeth ledled Gorllewin Cymru. Mae'n cynnig llawer o fanteision - mae manteision amgylcheddol drwy annog pobl i feicio neu gerdded ar gyfer teithiau lleol a phellter hwy, gan ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer teithio llesol yn ogystal â chyfrannu at dargedau lleol a chenedlaethol ar gyfer lleihau carbon ac ansawdd aer.

Mae manteision o ran cysylltu â safleoedd cyflogaeth, addysg, hamdden, iechyd, diwylliannol a manwerthu allweddol ar draws Dyffryn Tywi prydferth a bydd yn rhoi cyfleoedd ar gyfer datblygu busnes, twf ac arallgyfeirio amaethyddol drwy fwy o wariant ymwelwyr yn yr ardal.

Bydd y llwybr hefyd yn cynnig manteision sylweddol i'r sir gyda'r potensial i gynhyrchu tua £4.4 miliwn y flwyddyn i'r economi leol, gan greu swyddi mewn busnesau lleol drwy nifer uwch o ymwelwyr a gwariant.

Fel y dywedais, mae hwn yn brosiect pwysig i ni, ac rydym yn hyderus yn ei gyflawniad a'n gallu i gwblhau'r gwaith sydd ei angen i gael mynediad at y cyllid a ddyfarnwyd i ni o fewn y dyddiad cau penodedig.

Cwestiwn atodol gan Mrs Tara-Jane Sutcliffe:

Diolch yn fawr iawn, rwy'n gwerthfawrogi eich amser ar hyn. Fodd bynnag, nid yw'n ateb fy nghwestiwn yn gyfan gwbl - a ydych chi wedi llunio cynllun wrth gefn os bydd y prosiect yn rhedeg y tu hwnt i 31 Mawrth y flwyddyn nesaf? Os felly, faint, oherwydd os yw'n brosiect gwerth £16.7 miliwn ynghyd â'r £1.8 miliwn, mae hynny'n llawer iawn o filiynau, prosiect drud iawn, a oes risg y gallai rhedeg y tu hwnt fel y byddai'r rhwymedigaethau yn fwy na'r £1.8 miliwn sydd eisoes wedi'i neilltuo?

Ymateb gan y Cynghorydd Edward Thomas - yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith:-

Rwy'n credu fy mod eisoes wedi datgan ein bod yn hyderus y byddwn yn cwblhau'r prosiect a bod gennym yr arian i or-redeg.

11. CWESTIYNAU GAN AELODAU:-

11.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES I'R CYNGHORYDD ALUN LENNY, YR AELOD CABINET DROS ADNODDAU

"Wrth ystyried ymrwymiad y Cyngor ym mis Ionawr 2023 i ail-edrych ar ei berthynas â banc Barclays, a allai'r Aelod Cabinet amlinellu pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran ail-edrych - gan amlinellu telerau'r contract presennol gyda Barclays, p'un a ymgynghorwyd â banciau eraill a beth yw barn y weinyddiaeth hon ar honiadau o wyrddgalchu parhaus o fewn Barclays?"

Ymateb gan y Cynghorydd Alun Lenny, yr Aelod Cabinet dros Adnoddau

Ers i'r mater hwn gael ei gyflwyno gerbron y Cyngor, mae'r Awdurdod wedi gwneud gwaith sylweddol wrth ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer ei wasanaeth bancio ar gyfer y dyfodol. Mae swyddogion wedi ymgysylltu ag ymgynghorydd bancio arbenigol annibynnol i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y farchnad mewn perthynas â sefydliadau bancio cyfredol a'r gwasanaethau a ddarperir. Maent hefyd wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â banc Barclays mewn perthynas â'i bolisïau moesegol, cynaliadwy a llywodraethu neu ESG gan geisio gwybodaeth am gyfeiriad y sefydliad hwnnw yn y dyfodol. Mae swyddogion bellach wedi llunio adroddiad ar yr opsiynau y byddaf yn eu trafod gyda'r Cyfarwyddwr dros yr wythnosau nesaf a byddwn yn penderfynu ar y ffordd fwyaf priodol ymlaen. Hoffwn atgoffa'r Aelodau o bwysigrwydd sefydliad bancio cryf, cynaliadwy a chadarn i'r Cyngor Sir sy'n prosesu miliynau o drafodiadau bob blwyddyn ar gyfer y Cyngor Sir er mwyn sicrhau bod llif arian yn symud rhwng trigolion, contractwyr a busnesau mewn modd effeithlon ac effeithiol. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweithredu mewn 128 o gyfrifon banc ac mae trosiant buddsoddiadau yn unig oddeutu £1.8 biliwn.

Felly, mae sefydliad cadarn sy'n gweithredu mewn modd amserol ac effeithlon yn hanfodol i'r Awdurdod er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau effeithiol, yn ogystal â phwysigrwydd egwyddorion ESG y sefydliad hwnnw.

Diolch yn fawr.

11.2. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES I'R CYNGHORYDD DARREN PRICE, ARWEINYDD Y CYNGOR

"Mae Siambr Fasnach Llanelli wedi cyhoeddi ymgyrch i gydnabod Llanelli fel dinas. Mae'r ymgyrch wedi derbyn ymateb cymysg gyda Syr Douglas Perkins, cyd-sylfaenydd Specsavers, Nia Griffith AS a Chynghorau Tref a Gwledig Llanelli yn cefnogi'r cynnig, ac eto mae rhai wedi codi pryderon. A wnewch chi ymrwymo i Gyngor Sir Caerfyrddin gynnal ymgynghoriad cyhoeddus, mewn partneriaeth â'r Siambr Fasnach, i asesu barn y cyhoedd ynglŷn â chyflwyno cais am statws dinas?"

Ymateb gan y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd y Cyngor

Diolch ichi am y cwestiwn. Fel y gwyddoch efallai, rwyf wedi galw ar Siambr Fasnach Llanelli yn gyhoeddus o'r blaen i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn gyda phobl Llanelli, cyn symud ymlaen ag unrhyw gais ffurfiol am statws dinas. Mae pwysigrwydd yr ymgynghoriad cyhoeddus hwnnw yn fy marn i yn gwbl sylfaenol. Yn wir, rwy'n credu ei bod yn ddyletswydd ar bob gwleidydd a busnes i wrando ar farn y bobl cyn mynd ymhellach. Yn fy marn i, yr unig ffordd o wneud hynny'n deg yw penodi sefydliad annibynnol i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol, yn annibynnol ar unrhyw gorff neu unrhyw Gyngor. Yn wir, ar 6 Chwefror 2024, rhoddais restr i'r siambr o sefydliadau posibl a allai wneud y gwaith hwnnw ar ei rhan. Nawr, rwy'n sylwi eich bod wedi dweud yn eich cwestiwn bod y cynghorau tref a gwledig yn cefnogi'r cais am statws dinas, ond fy nealltwriaeth i yw mai dim ond y Cyngor Tref sydd wedi datgan cefnogaeth i'r cais, tra bod y cynghorwyr gwledig dim ond wedi cytuno i anfon cynrychiolydd i lansiad y cais ddiwedd mis Mawrth.

Rwy'n deall eich bod wedi eilio'r cynnig yn y Cyngor Tref o blaid y cais, os wyf yn gwbl onest, rwy'n credu bod hynny ychydig yn gynamserol heb ymgynghori â'r cyhoedd.

Yn gyntaf, wrth gwrs, mae yna nifer o bethau anhysbys ar hyn o bryd. Felly, yn fy marn i, bydd angen i'r rhai sy'n cynnig y newid nodi'n fanwl cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ffin arfaethedig y ddinas, er enghraifft, unrhyw fuddion y maent yn eu gweld, ynghyd ag unrhyw gostau. Yna gall y manylion hyn fod yn destun trafodaeth a chraffu cyhoeddus.

Yn anffodus, ac rwyf wedi sylwi ar hyn, ceir rhai sylwadau cynnar gan un neu ddau o'r rhai sy'n cefnogi'r cais nad ydynt yn seiliedig ar realiti. Felly, er enghraifft, rwyf wedi clywed rhai yn awgrymu y byddai newid statws y dref i ddinas yn arwain at adran damweiniau ac achosion brys gyflawn yn Llanelli, ac mae'n amlwg nad yw hynny'n wir. Gwyddom fod Byrddau Iechyd yn penderfynu ar fodelau ar gyfer darparu gwasanaethau yn seiliedig ar ffactorau poblogaeth a mynediad hwylus yn lleol. Er enghraifft, gwyddom mai'r safleoedd a ffefrir ar gyfer ysbyty newydd Hywel Dda yw Sanclêr neu Hendy-gwyn ar Daf.

Rydym hefyd yn nodi bod y buddsoddiad gofal critigol diweddaraf yn Ne Cymru, sef ysbyty y Faenor yng Ngwent, wedi'i leoli yn agos i dref Cwmbrân yn hytrach na dinas Casnewydd. Felly, mae angen i'r achos dros statws dinas fod yn seiliedig ar ffeithiau ac nid ffuglen.

O'm safbwynt i, mae Plaid Cymru yn canolbwyntio'n llwyr ar geisio denu mewnfuddsoddiad i Lanelli. Dim ond drwy greu swyddi a chyfoeth y byddwn yn newid ffawd Llanelli, a dyna pam rydym yn canolbwyntio ar gyflawni datblygiad Pentre Awel, er enghraifft, sydd gwerth miliynau o bunnoedd, a fydd yn creu cannoedd o swyddi yn y dref. Yn yr un modd, mae angen i bob un ohonom ganolbwyntio ar geisio gwella canol y dref.

Mae gwelliannau ymarferol, fel yr angen am ailddatblygu adeilad yr YMCA, fel y soniwyd gan y Cynghorydd Alun Lenny yn gynharach ac ailddatblygu Gogledd Stryd y Farchnad yn fan cychwyn. Mae'r rhain, a'r ceisiadau llwyddiannus am gyllid gwerth £15m i'r Gronfa Ffyniant Bro i gyd wedi'u cynllunio i geisio rhoi bywyd newydd i ganol y dref ond mae'n amlwg bod cymaint mwy i'w wneud.

Fel y gwyddom, mae canol y dref wedi'i ddinistrio o ganlyniad i siopau y tu allan i'r dref, clystyru a siopa ar-lein. Wrth gwrs, rydym bellach yn gorfod ymateb i'r realiti hwnnw, ac mae angen i bob un ohonom feddwl am ffyrdd ymarferol y gellir gwneud hynny. Ni fydd newid statws y dref, yn fy marn i, yn newid hynny'n sylweddol.

Felly, wrth gloi, rwyf yn galw eto ar y Siambr i ymgynghori â'r cyhoedd ond ei bod yn penodi sefydliad annibynnol yn unig i arwain ar y broses honno.

Diolch yn fawr

Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Rob James

Rwy'n falch bod yr Arweinydd wedi codi'r mater ynglŷn â siopa yn y dref ac yn y datganiad cyhoeddus mae'n nodi mai dewis y weinyddiaeth Lafur oedd adeiladu Trostre, sydd wedi creu'r broblem sydd gennym yng nghanol y dref, felly a fyddai'n derbyn oni bai am fy hun ac eraill o'm cwmpas, y byddai'r ymgyrch i atal ail-ehangu Trostre, yr oeddem yn ei weld yn cael ei gynnig gan eich gweinyddiaeth, mewn gwirionedd yn arwain at drosglwyddiad llawer mwy ac yn gwanhau canol y dref hyd yn oed yn fwy.

Ymateb gan y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd y Cyngor

Ydw, rwy'n bendant yn rhannu eich pryderon am unrhyw ddatblygiad yn Nhrostre yn y dyfodol ac yn sicr nid ydym am weld unrhyw ddatblygiad sy'n arwain at dynnu rhagor o fusnesau o ganol y dref a chafwyd trafodaethau diweddar ar lefel y Cabinet sydd wedi cadarnhau'r safbwynt hwnnw ac yn fy marn i, mae Trostre yn orlawn o ran adwerthu ac yn amlwg y camgymeriad strategol, yn fy marn i, wrth edrych yn ôl, ddegawdau yn ôl o ran sefydlu Trostre a'r graddfeydd a welsom o dan y weinyddiaeth Lafur yn negawd cyntaf y ganrif hon wedi creu sefyllfa lle mae canol y dref yn ei chael hi'n anodd iawn. Nid yw ar ei ben ei hun, mae canolfannau siopa y tu allan i'r trefi ledled Cymru, ond mae hynny'n sicr yn ffactor ar gyfer canol y dref. Fel y soniais, mae nifer o fuddsoddiadau ymarferol yr ydym wedi'u gwneud, a byddwn yn parhau i'w gwneud dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i geisio gwyrdroi'r sefyllfa honno. Ond yn sicr nid yw'n sefyllfa y byddem am ddechrau ohoni.

Gan ddychwelyd at bwynt y cwestiwn gwreiddiol o ran statws y ddinas, mae'r dystiolaeth yr wyf wedi'i gweld, sy'n seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol dros 20 mlynedd sy'n edrych ar berfformiad economaidd o ran creu swyddi, Gwerth Ychwanegol Gros a buddsoddiadau, nid oes unrhyw dystiolaeth, empirig nac academaidd, sy'n awgrymu bod newid statws yn sicrhau buddion yn yr ardaloedd hynny.

Felly, dros gyfnod o 20 mlynedd, dinasoedd a threfi, trefi sydd wedi gwneud cais am statws dinas ac sydd wedi llwyddo a threfi sydd wedi gwneud cais am statws dinas ac sydd wedi methu. Mae'r pedwar maes penodol hynny i gyd yn dangos canlyniadau economaidd tebyg o ran swyddi, Gwerth Ychwanegol Gros a buddsoddiad, ac felly ar y sail honno, rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn gofyn i bobl Llanelli beth maen nhw am ei wneud. Os oes greddf eu bod yn teimlo eu bod am ddod yn ddinas am resymau eraill, yn amlwg byddai dyletswydd arnom i gefnogi hynny. Ond rwy'n credu y byddem yn cael dadl onest a ffeithiol o ran rhinweddau'r achos arall. Diolch yn fawr.

12. ETHOL IS-GADEIRYDD Y PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL YN DILYN SWYDD WAG CANOL TYMOR

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Fiona Hughes yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am weddill Blwyddyn y Cyngor 2023-24.

13. CYMARADWYO Y NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU

13.1 PENDERFYNWYD cymeradwyo enwebu'r Cynghorydd Nysia Evans i lenwi sedd wag y Grŵp Llafur ar y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

14. COFNODION ER GWYBODAETH YN UNIG:-

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellwyd ar yr agenda o dan 14.1 – 14.7 ar gael i gael gwybodaeth ar wefan y Cyngor.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol